

Cynllun Busnes yr Awdurdod Safonau Proffesiynol 2022/23

(yn ymgorffori'r Cynllun Strategol
2021-2024)

SG/2022/107



Cynllun Busnes 2022/23

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Atodlen 7, Paragraff 16 (1B) y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Senedd yr Alban gan weinidogion yr Alban dan y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.



© Hawlfraint Awdurdod Safonau Proffesiynol 2022

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn info@professionalstandards.org.uk

ISBN 978-1-5286-3493-9

E02761342 06/22

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys lleiafswm o 75% o gynnwys ffibr wedi ei ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Global ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

1.	Ynglŷn â'r Awdurdod Safonau Proffesiynol.....	3
2.	Statws a Chyllid.....	3
3.	Ein Diben.....	4
4.	Cynllun Strategol 2021-24.....	5
5.	Cynllun Busnes 2022/23.....	9
6.	Cyllid ac Adnoddau.....	13
7.	Dangosyddion Perfformiad Allweddol.....	18

1. Ynglŷn â'r Awdurdod Safonau Proffesiynol

- 1.1 Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer iechyd a Gofal Cymdeithasol yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestriad gwirfoddol pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal. Rydym yn gorff annibynnol, sy'n atebol i Senedd y Deyrnas Unedig, ac yn gweithio'n agos gyda gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- 1.2 Rydym yn goruchwyllo gwaith 10 corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd yn y Deyrnas Unedig a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr. Rydym yn adolygu perfformiad y rheolyddion ac yn archwilio a chraffu ar eu penderfyniadau am a yw pobl ar eu cofrestrau yn addas i ymarfer.
- 1.3 Rydym hefyd yn gosod safonau ar gyfer sefydliadau sy'n cynnal cofrestrau o bobl mewn galwedigaethau iechyd a gofal heb eu rheoleiddio, ac yn achredu'r sefydliadau sy'n bodloni ein safonau.
- 1.4 I annog gwelliannau, rydym yn rhannu arfer da a gwybodaeth, yn cyflawni ymchwil ac yn cyflwyno syniadau newydd yn cynnwys ein cysyniad o reoleiddio cyffyrddiad cywir. Rydym yn monitro datblygiadau polisi yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol ac yn darparu cyngor i lywodraethau ac eraill ar faterion yn ymwneud â phobl yn gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol.
- 1.5 Rydym hefyd yn cyflawni rhai comisiynau rhyngwladol, y mae'r comisiynwyr yn talu amdanynt, i ehangu ein dealltwriaeth o reoleiddio gweithlu byd eang.

2. Statws a chyllid

- 2.1 Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel corff annibynnol gyda dyletswyddau statudol. Mae'n atebol i'r Senedd.
- 2.2 Mae'r Awdurdod wedi ei ariannu trwy:
 - Ffioedd a gesglir gan y cyrff rheoleiddiol rydym yn eu goruchwyllo sy'n ariannu costau swyddogaethau rheoleiddio a safonau
 - Incwm yn deillio o achredu cofrestrau gwirfoddol. Mae'r gweithgaredd hwn ar sail adennill costau a rhoddir cyfrif amdano ar wahân i'r gwaith rheoleiddio a safonau
 - Incwm ar gyfer cyngor ac ymchwiliadau a gomisiynir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a/neu'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Ariennir y comisiynau hyn gan ffioedd a osodir gan yr Awdurdod
 - Incwm o weithgareddau eraill, er enghraifft, ffioedd o ddarparu cyngor a gwasanaethau cynghori i lywodraethau, cyrff rheoleiddio a sefydliadau tebyg eraill yn y Deyrnas Unedig a thramor.
- 2.3 Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ymgynghori â'r cyrff rheoleiddio i'w hysbysu o'i ofynion cyllidebol arfaethedig ar gyfer y swyddogaethau rheoleiddio a safonau. Darperir yr ymgynghoriad hwn yn yr atodiad i'r cynllun busnes.

3. Ein diben

3.1 Sefydlwyd yr Awdurdod i:

- hyrwyddo buddiannau cleifion ac aelodau eraill o'r cyhoedd parthed perfformiad y cyrff rheoleiddio
- hyrwyddo arfer gorau o ran perfformiad swyddogaethau rheoleiddio proffesiynol
- llunio egwyddorion rheoleiddio da ac annog cyrff rheoleiddiol i gydymffurfio
- hyrwyddo cydweithrediad rhwng cyrff rheoleiddiol.

3.2 Nid yw'r gwaith yr ydym yn ei wneud i gyflawni ein diben a dyletswyddau cyffredinol y mae'r Rheoliadau Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ffioedd) 2015 yn berthnasol iddynt wedi newid yn y 12 mis diwethaf, sef:

- Adolygu achosion addasrwydd i ymarfer dan Adran 29 ein deddfwriaeth a chyfeirio achosion i'r Llysoedd perthnasol os ydym yn ystyried nad yw penderfyniad am addasrwydd i ymarfer ymarferydd yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd neu na ddylid fod wedi ei wneud
- Ymchwilio ac adrodd ar berfformiad pob corff rheoleiddio
- Gwneud argymhellion i gorff rheoleiddio i newid y modd mae'n cyflawni ei swyddogaethau
- Darparu cyngor i'r cyrff rheoleiddio parthed eu swyddogaethau statudol, yn seiliedig ar ymchwil a'n gwaith i wella a datblygu safonau
- Cynorthwyo'r Cyfrin Gyngor gyda'i swyddogaethau penodiadau parthed y cyrff rheoleiddio
- Ceisio barnau'r cyhoedd a chyrrff cyhoeddus sy'n ymddangos i fod yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr gwasanaeth ar faterion perthnasol i'n swyddogaethau
- Darparu barn yr Awdurdod ynghylch materion rheoleiddiol i eraill, datblygu, casglu a syntheseiddio tystiolaeth i gefnogi hynny, ac ymateb i'r rhai sy'n ymgynghori ar faterion o'r fath
- Trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau eraill i hwyluso trafodaeth, dadl, cydweithrediad a gwelliant a chymryd rhan mewn seminarau a chynadleddau yn y Deyrnas Unedig a llefydd eraill
- Cyflawni beth bynnag y credwn i fod yn angenrheidiol ar gyfer perfformiad ein swyddogaethau
- Adrodd ar unrhyw fater ar gais gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cynulliad Gogledd Iwerddon, Llywodraeth Cynulliad Cymru neu Lywodraeth yr Alban
- Cefnogi gwaith y Pwyllgor Dethol ar Iechyd
- Cyflawni'r gofynion cyfrifo, adrodd, cynllunio a deddfwriaethol angenrheidiol er mwyn rhedeg yr Awdurdod
- Cyhoeddi gwybodaeth ynghylch yr Awdurdod ac arfer ei swyddogaethau.

4. Cynllun Strategol 2021-24

- 4.1 Mae gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol bedair swyddogaeth allweddol.
1. Rydym yn ysgogi gwelliannau yn y deg rheolydd statudol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol drwy gynnal adolygiadau blynyddol o effeithiolrwydd.
 2. Rydym yn darparu rhwyd ddiogelwch ar gyfer unrhyw benderfyniadau addasrwydd i ymarfer sy'n annigonol i ddiogelu'r cyhoedd.
 3. Rydym yn codi safonau mewn gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol mewn rolau anstatudol trwy ein rhaglen cofrestrau achrededig.
 4. Rydym yn defnyddio ymchwil a datblygu polisi i wella rheoleiddio a chofrestru er mwyn amddiffyn cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn well.

Ein cyd-destun gweithredol

- 4.2 Mae annibyniaeth ac arbenigedd yr Awdurdod yn golygu ein bod mewn sefyllfa unigryw i ymateb i newidiadau rheoleiddiol mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r heriau hyn yn cynnwys:
- yr ymateb rheoleiddio proffesiynol i'r argyfwng Covid-19 a dysgu o hyn i wella rheoleiddio yn y dyfodol;
 - gweithio gyda llywodraethau'r Deyrnas Unedig i lunio diwygiad rheoleiddio proffesiynol;
 - gweithio gyda rheolyddion i roi diwygiadau ar waith yn ystod 2021-24, gan sicrhau bod y newidiadau'n diogelu'r cyhoedd yn effeithiol;
 - gwella cydweithio rhwng rheolyddion i amddiffyn y cyhoedd yn well;
 - gweithio gyda rheolyddion a rhanddeiliaid i gynnal ymchwil a rhannu arfer da i wella rheoleiddio;
 - sicrhau bod rheoleiddio'n darparu amddiffyn priodol ar gyfer y mwyaf bregus;
 - asesu'r risg o ddefnyddio gwahanol systemau iechyd a dulliau rheoleiddio ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig;
 - cynllunio ar gyfer heriau rheoleiddiol o ganlyniad i newidiadau technolegol.

Gweledigaeth

- 4.3 Gofal diogel trwy safonau ymddygiad a chymhwyster uchel gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.

Cenhadaeth

- 4.4 I ddiogelu cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy wella rheoleiddio a chofrestriad gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

Gwerthoedd

- 4.5 Mae ein gwerthoedd yn disgrifio sut fyddwn ni'n gweithio gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid allanol. Rydym yn ymgeisio i hyrwyddo, datblygu ac arddangos y gwerthoedd hyn ym mhopeth a wnawn. Mae diwylliant positif yn arwain at well performiad a gwell deilliannau i gleifion a'r cyhoedd.
- 4.6 Ein gwerthoedd yw:
- Cywirdeb – byddwn yn agored, onest ac yn ymddiried yn ein gilydd.

- Tryloyw – byddwn yn glir ynghylch ein perfformiad a’r rhesymau dros ein penderfyniadau gyda phob rhanddeiliad.
- Parch – byddwn yn trin ein gilydd, a’r rhai rydym yn gweithio gyda nhw tu allan i’r sefydliad, gyda pharch ar bob adeg.
- Tegwch – byddwn yn ymdrechu i fod yn deg ym mhob agwedd o wneud penderfyniadau.
- Gwaith tîm – byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwell deilliannau i gleifion a’r cyhoedd.

Ein dull

- 4.7 Sefydlwyd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol yn 2003 ac mae'n cydnabod y gwelliannau a wnaed mewn rheoleiddio a chofrestru ers hynny. Mae'r Awdurdod yn parhau i adolygu a gwella ei brosesau craidd i adlewyrchu'r gwelliannau hyn ac i ymateb i'n hamgylchedd gweithredu.
- 4.8 Cyflwynwyd rhaglen cofrestrau achrededig newydd gennym yn 2021/22 sy'n gynaliadwy yn ariannol, yn gost-effeithiol, yn gadarn ac yn bodloni anghenion cyflogwyr, cleifion a’r cyhoedd yn well. Byddwn hefyd yn gwneud newidiadau i'n prosesau adolygu perfformiad i wneud yr adolygiadau'n fwy amserol, cymesur ac effeithiol o ran sicrhau gwelliannau mewn rheoleiddio.
- 4.9 Byddwn yn canolbwyntio mwy ar sut y gallwn ddefnyddio rôl unigryw'r Awdurdod i hyrwyddo a chefnogi gwelliannau mewn rheoleiddio a chofrestru er budd cleifion a'r cyhoedd yn ehangach. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo, llunio a chefnogi diwygio rheoleiddio, gan gydnabod ein rôl allweddol yn ystod cyfnod o newid sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Nod strategol 1

- 4.10 Diogelu’r cyhoedd trwy ddarparu trosolwg effeithiol iawn o reoleiddio a chofrestru.
- Cyflawni ein dyletswyddau statudol, targedu ein hadnoddau ble mae'r risg mwyaf i'r cyhoedd.
 - Bod yn dryloyw wrth wneud penderfyniadau ac adrodd, gan gydnabod y rhai sy'n ymroddedig i gyflawni safonau uchel a bod yn drylwyr, clir a theg wrth adrodd am ddiffyg cydymffuriad gyda’n safonau.
 - Cefnogi gwelliant a safonau uchel mewn rheoleiddio a chofrestru iechyd a gofal cymdeithasol trwy ddefnydd effeithiol o wybodaeth, data a deallusrwydd.
 - Arwain datblygiad rheoleiddio mwy effeithiol trwy adolygu ein safonau, ymchwil, cyngor polisi a gweithgareddau gwella; a thrwy hyrwyddo, llunio a chefnogi diwygio rheoleiddio.
- 4.11 Yn 2021-23, byddwn yn:
- Darparu adolygiadau perfformiad cadarn a theg o’r rheolyddion statudol; defnyddio ein pwerau Adran 29 i adolygu canlyniadau paneli addasrwydd i ymarfer; rheoli'r rhaglen cofrestrau achrededig; ac adrodd ein casgliadau i’r Senedd.
 - Gweithredu ein rhaglen cofrestrau achrededig gwell a chwblhau’r gwaith ar adolygu ein prosesau adolygu perfformiad i sicrhau eu bod yn gymesur, yn amserol ac yn effeithiol.

- Cyfrannu at welliannau mewn rheoleiddio trwy ymchwil, cyngor polisi a gweithredu ein prosesau adolygu perfformiad newydd, gan gynnwys rhannu arfer da.
- Hyrwyddo pwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y rheolyddion a'r cofrestrau achrededig a oruchwyliwn.

Nod strategol 2

- 4.12 Sicrhau dull effeithiol a chydlynol o ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed trwy hyrwyddo a hwyluso cydweithio a chydweithredu rhwng rheolyddion.
- Cynnal perthnasau cryf gyda rheolyddion statudol, sefydliadau gyda chofrestrau achrededig a rhanddeiliaid eraill i wella safonau mewn ymarfer proffesiynol ac i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
 - Cydweithio gyda rheolyddion proffesiynol a system mewn iechyd a gofal cymdeithasol i ddiogelu'r cyhoedd yn well.
 - Sicrhau bod y rhaglen cofrestrau achrededig a mathau eraill o sicrwydd mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweddu â rheoleiddio statudol i ddarparu dull cydlynol o ofal diogel.
 - Darparu cefnogaeth ac arweiniad i reolyddion a chofrestrau achrededig i wella eu gwaith er budd diogelu'r cyhoedd.
- 4.13 Yn 2021-23, byddwn yn:
- Parhau i gyflawni ein strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid a defnyddio hyn i rannu gwybodaeth, dysg ac arfer da ac i hyrwyddo, llunio a chefnogi diwygio rheoleiddio.
 - Ymgysylltu â grwpiau cleifion a'r cyhoedd i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr gofal iechyd, gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol yng ngwaith rheolyddion a chofrestrau achrededig.
 - Adolygu'r cyfathrebu, cydweithredu a chydweithio rhwng rheolyddion proffesiynol, er mwyn cyflwyno gwelliannau.
 - Ymgysylltu â rheolyddion a chofrestrau achrededig i hyrwyddo a monitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Nod strategol 3

- 4.14 I sicrhau bod yr Awdurdod wedi ei arwain yn dda, gyda ffocws pendant ar wella ansawdd, rheolaeth ariannol effeithiol, cydraddoldeb ac amrywiaeth a buddsoddiad yn ein pobl.
- I hyrwyddo a monitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn yr Awdurdod ac yn y rhai rydym yn eu goruchwyllo.
 - I gynnal a gwella cost-effeithiolrwydd ac ansawdd trwy adolygu systemau, prosesau a gweithdrefnau'n systematig, a thrwy weithio gydag eraill.
 - I gadw a datblygu ein staff ac i gynnal diwylliant gwaith positif.
 - I wella arbenigedd a chefnogi darpariaeth trwy ddysgu a datblygu o safon uchel.
- 4.15 Yn 2021-23, byddwn yn:
- Cyflawni ein strategaethau cyllid, TGCh a phobl.

- Gwella ein heffeithiolrwydd a chynyddu ein gwerth am arian.
- Cyflawni'r cynllun gweithredu sy'n deillio o'n prosiect cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Darparu ystod eang o gyfleoedd datblygiad proffesiynol perthnasol a defnyddiol i'r holl staff.

Covid-19

- 4.16 Mae'r pandemig Covid-19 wedi cael effaith arwyddocaol ar waith yr Awdurdod ers Mawrth 2020 a bydd yn parhau i wneud hynny yn 2022/23. Mae'r Awdurdod wedi gweithio'n agos gyda'r rheolyddion, sefydliadau sy'n cadw cofrestrau achrededig a rhanddeiliaid eraill i gefnogi ymateb y sector iechyd a gofal i'r pandemig. Yn ogystal, ym mis Ebrill 2021 cyhoeddodd yr Awdurdod 'Learning from Covid-19: a case-study review', gan amlinellu'r gwersi y gall rheoleiddio proffesiynol eu dysgu o'r pandemig.
- 4.17 Disgwyliwn i effaith Covid-19 ar yr Awdurdod yn y flwyddyn i ddod leihau wrth i nifer ddychwelyd i rywfaint o waith swyddfa. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai'r risg o amharu ar weithgareddau gwaith oherwydd salwch staff a chyfyngiadau teithio/gwaith pellach gynyddu eto. Gallai hyn arwain at: newidiadau i amserlenni adolygiadau perfformiad a phenderfyniadau achredu oherwydd pwysau gwaith a/neu amhariadau; tarfu pellach ar waith ymchwil; a newidiadau posibl yn nifer a math y penderfyniadau addasrwydd i ymarfer a adolygwyd gan yr Awdurdod oherwydd ôl-groniadau mewn achosion o 2020/21 a 2021/22.
- 4.18 Rydym yn cydnabod y bydd pandemig Covid-19 yn parhau i gael effaith ar waith y rheolyddion a'r cofrestrau achrededig yn 2022/23, yn ogystal ag ar y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Awdurdod wedi ymrwmo i gefnogi'r rheolyddion a chofrestrau achrededig trwy gydol y cyfnod hwn a bydd yn ystyried y cyd-destun gweithredu mewn adolygiadau perfformiad a phenderfyniadau achredu.

Diwygio rheoleiddio proffesiynol

- 4.19 Mae diwygio rheoleiddio proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn wynebu dwy ffynhonnell sylweddol o ddiwygio. Mae'r cyntaf yn dilyn ymgynghoriad y llywodraeth rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2021 (*Rheoleiddio Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd, Diogelu'r Cyhoedd*), a amlinellodd gynigion polisi ar gyfer diwygio naw o'r deg rheoleiddiwr a oruchwylir gan yr Awdurdod (nid Social Work England). Disgwylir y bydd y cynigion hyn yn sail i newidiadau i bob un o'r rheolyddion yn eu tro, gan ddechrau gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol. Mae'r rhain yn newidiadau mawr yn neddfwriaeth ac arferion gweithredu'r rheolyddion a gall fod sawl blwyddyn cyn i'r holl newidiadau gael eu gweithredu.
- 4.20 Mae ail ffynhonnell y diwygiadau posibl yn ymwneud â chynigion yn y Bil Iechyd a Gofal i adolygu nifer y rheolyddion a pha broffesiynau y dylid eu rheoleiddio'n statudol. Mae adolygiad, a gomisiynwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac a arweinir gan KPMG, yn cael ei gynnal yn ail hanner 2021 a gallai arwain at gynigion ar gyfer newidiadau i'r dirwedd reoleiddiol y tu hwnt i'r rhai a gynlluniwyd fel rhan o *Rheoleiddio Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol, Diogelu'r Cyhoedd*.
- 4.21 Mae'r ddwy ffynhonnell ddiwygio hyn yn cynhyrchu cryn dipyn o waith i'r Awdurdod wrth iddo ymdrechu i sicrhau bod unrhyw newidiadau a wneir yn cynnal ac yn gwella diogelwch y cyhoedd. Bydd yr Awdurdod hefyd yn addasu ei brosesau ei hun i gefnogi'r diwygiadau yn effeithiol. Mae'n bosibl hefyd y bydd risgiau rheoleiddiol pellach yn

gysylltiedig â'r cyfnod hwn o newid mawr dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a fydd angen goruchwyliaeth gymesur gan yr Awdurdod.

5. Cynllun Busnes 2022/23

Safonau a Pholisi

- 5.1 Byddwn yn cynnal y rhaglen bolisi ac ymchwil a gymeradwywyd gan y Bwrdd, gan gynnwys ymchwil gyda'r cyhoedd. Bydd hyn yn cynnwys prosiectau hanfodol i gefnogi diwygio rheoleiddio a'n hymrwymiad i wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- 5.2 Byddwn yn parhau i fynd ar drywydd ein prosiect Pontio'r Bwlch (Bridging the Gap) i annog gwell cydgyssylltu, cydweithredu a chydweithio ar draws y system reoleiddio a diogelwch cleifion; a phrosiect Gweithlu'r Dyfodol i ddatblygu dulliau rheoleiddio sy'n adlewyrchu arferion gwaith ym maes iechyd a gofal.
- 5.3 Byddwn yn rhoi cyngor i'r Ysgrifenyddion Gwladol a Gweinidogion yn ôl yr angen. Byddwn yn darparu arweiniad, arweiniad a chynghor i reolyddion a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'w helpu i roi diwygiadau ar waith yn llwyddiannus. Byddwn yn cefnogi gwella prosesau'r Awdurdod sy'n sail i weithredu'r diwygiadau ac yn chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio diwygiadau i wella rheoleiddio a chofrestru ymhellach.
- 5.4 Byddwn yn parhau i fonitro ac ymateb i ymgynghoriadau, ac i fonitro effaith polisi rheoleiddio.

Cyfathrebu ac ymgysylltu

- 5.5 Byddwn yn gweithredu ein strategaeth a'n cynlluniau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Byddwn yn cynnal unrhyw gyfathrebiadau ac ymgysylltu sy'n deillio o'r Bil Iechyd a Gofal a gwaith cysylltiedig.
- 5.6 Byddwn yn cynnal ein digwyddiadau blynyddol, ar-lein ac yn bersonol, gan gynnwys symposiwm hydref, cynhadledd academaidd a seminarau yn yr Alban a Chymru ac o bosibl Gogledd Iwerddon. Byddwn yn adolygu ac yn diweddarau ein gwefan sydd wedi bod yn gweithredu yn y fformat presennol ers rhai blynyddoedd bellach i wneud y gorau o'i pherfformiad a gwella ein hygyrchedd i gynulleidfaedd amrywiol.
- 5.7 Byddwn yn comisiynu archwiliad canfyddiad ac yn cynnal archwiliad o gyhoeddiadau i wirio a gwella hygyrchedd ein gwaith i'n gwahanol gynulleidfaedd a rhoi camau gweithredu ar waith yn unol â'n cynllun gweithredu EDI. Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer gweithgareddau gwella rheoleiddio a chofrestru.

Cofrestrau achrededig (AR)

- 5.8 Yn ystod y flwyddyn byddwn yn parhau i asesu ceisiadau newydd a cheisiadau i adnewyddu, gan gynnwys monitro yn ystod y flwyddyn ac unrhyw adolygiadau targedig. Bydd y newidiadau a wnaethom yn ystod 2021/22 yn cael eu hadolygu a bydd gwelliannau pellach yn cael eu gwneud.
- 5.9 Yn dibynnu ar lwyddiant y cynllun peilot diogelu AR yn ystod 2021/22 rydym yn disgwyl goruchwylio'r broses o drosglwyddo'r holl gofrestrau i gynnal gwiriadau DBS ar unrhyw gofrestryddion nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys mewn gwiriadau cyflogwr.
- 5.10 Rydym yn rhagweld y bydd archwiliad mewnol o AR yn 2022/23 i wirio gweithrediad y dull newydd a gyflwynwyd yn 2021/22.

Craffu ac Ansawdd

- 5.11 Mae gwaith y gyfarwyddiaeth Craffu ac Ansawdd yn cwmpasu tair o swyddogaethau statudol yr Awdurdod: adrodd i Senedd y DU ar waith y rheolyddion (adolygiad perfformiad); adolygu penderfyniadau addasrwydd i ymarfer terfynol rheolyddion (adran 29); a chynghori'r Cyfrin Gyngor ynghylch penodiadau rheolyddion i'w Cynghorau. Yn ogystal, mae'n ymdrin â phryderon a godwyd yn gyffredinol am reolyddion.

Adolygiad perfformiad

- 5.12 Bydd y tîm adolygiadau perfformiad yn parhau i adolygu pob un o'r deg rheolydd ac adrodd i'r Senedd ar eu perfformiad.
- 5.13 Yn 2020/21, buom yn ymgynghori ynghylch a ddylem ddiwygio'r broses adolygu perfformiad. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw, penderfynom y byddem yn anelu at ganolbwyntio mwy o'n gwaith ar fonitro'r rheolyddion yn ystod y flwyddyn fel y gallem gynhyrchu ein hadroddiadau yn fwy amserol ar ôl diwedd y flwyddyn. Penderfynasom hefyd wella ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid a gwelliannau eraill i'n prosesau mewnol ymhellach. Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar newidiadau pellach i'n prosesau a fydd yn gwneud adolygiadau perfformiad yn fwy cymesur ac yn fwy effeithiol wrth ysgogi gwelliannau mewn rheoleiddio.
- 5.14 Byddwn yn datblygu'r newidiadau hyn yn ystod blwyddyn fusnes 2021/22 a byddwn yn eu rhoi ar waith yn ystod 2022/23.
- 5.15 Bydd y tîm yn monitro'r diwygiadau a gaiff eu rhoi ar waith yn dilyn ymgynghoriad diweddar y Llywodraeth ar ddiwygio rheoleiddiol ac yn ystyried a oes angen diwygio ei brosesau ei hun yng ngoleuni hynny a gweithrediad y diwygiadau hynny gan y rheolyddion.
- 5.16 Nododd yr archwiliad diweddar o Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) yr angen i'r tîm gael gwell dealltwriaeth o EDI yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a'r ffordd orau i ni sicrhau bod y rheolyddion yn hyrwyddo ac yn monitro EDI yn briodol.

Adran 29

- 5.17 Mae'r tîm adran 29 (a.29) yn adolygu penderfyniadau paneli addasrwydd i ymarfer y rheolyddion i ystyried a yw'r rhain yn ddigonol i amddiffyn y cyhoedd. Os yw'n ystyried eu bod yn annigonol yna gall yr Awdurdod gyfeirio'r achos i'r llys perthnasol.
- 5.18 Mae'r Awdurdod yn derbyn pob penderfyniad sydd o fewn ein hawdurdodaeth. Nid ydym yn adolygu achosion lle mae'r cofrestrai wedi'i dynnu oddi ar y gofrestr neu rai eraill (e.e. ataliad pellach) lle yn ein barn ni mae'r penderfyniad yn debygol o fod yn ddigon i ddiogelu'r cyhoedd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod tua 30% o achosion yn cael eu cau heb adolygiad.
- 5.19 Ar gyfer y gweddill, rydym yn cynnal adolygiad cychwynnol i sefydlu a oes pryderon ynghylch y penderfyniad. Os oes, rydym yn ceisio gwybodaeth bellach (yn nodweddiadol, y papurau gerbron y panel a thrawsgrifiad o'r gwrandawriad) er mwyn i ni allu asesu a yw'r pryderon hynny'n awgrymu y gallai'r penderfyniad fod yn annigonol i ddiogelu'r cyhoedd. Os bydd y pryderon yn parhau, yna rydym yn cynnal cyfarfod achos gyda chynghor gan gyfreithwyr allanol cyn i ni benderfynu a ydym am atgyfeirio'r achos.

- 5.20 Yn 2020/21, derbyniodd yr Awdurdod 2018 o achosion. Roedd hyn yn ostyngiad sylweddol ar niferoedd y blynyddoedd blaenorol, gan adlewyrchu'r ffaith y bu gostyngiad yn nifer y gwrandawiadau o ganlyniad i'r pandemig Covid-19. Er bod nifer yr achosion sy'n cael eu clywed wedi cynyddu yn 2021/22, rydym yn ymwybodol bod gan lawer o reolyddion ôl-groniad sylweddol o achosion. Byddem, felly, yn disgwyl i'r nifer hwnnw fod yn sylweddol uwch yn 2022/23 ac rydym wedi amcangyfrif 3,500 o achosion. Credwn y bydd ein hadnoddau presennol yn gallu ymdopi â'r cynnydd mewn achosion.
- 5.21 Bydd y tîm yn ystyried sut yr ydym yn ymdrin â'r cynigion yn ymgynghoriad y Llywodraeth ar ddiwygio rheoleiddiol y dylai'r Awdurdod allu cyfeirio achosion sydd y tu allan i'n hawdurdodaeth a.29 at Gofrestrydd y rheoleiddiwr perthnasol.
- 5.22 Rydym yn ymwybodol o bryderon sylweddol a hirsefydlog ynghylch nifer yr unigolion cofrestredig BAME o fewn prosesau addasrwydd i ymarfer rhai rheolyddion. Argymhellodd ein harchwiliad cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn gynnar yn 2021 ein bod yn ystyried i ba raddau y mae penderfyniadau rheoleiddiol yn effeithio ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig gwahanol ac a all hyn ddarparu dysgu ar gyfer ein prosesau a'n penderfyniadau ein hunain. Byddwn yn gwneud gwaith yn y maes hwn yn 2021/22 a 2022/23.

Penodiadau i gyrff llywodraethu'r rheolyddion

- 5.23 Adolygodd yr Awdurdod 14 o brosesau penodi yn 2020/21. Disgwylwn i'r nifer hwnnw fod yn debyg yn 2022/23.
- 5.24 Byddwn yn adolygu ein prosesau a'n canllawiau ar gyfer penodiadau yn dilyn ein harchwiliad EDI.

Pryderon

- 5.25 Mae'r Awdurdod yn parhau i dderbyn nifer cynyddol o bryderon am y rheolyddion. Yn 2020/21 roedd 551, sy'n cynrychioli cynnydd o dros 30% ar y flwyddyn flaenorol. Ar hyn o bryd gellir rheoli'r swm hwn o waith o fewn ein hadnoddau presennol.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)

- 5.26 Yn 2020/21 comisiynodd yr Awdurdod archwiliad o'i ddull o ymdrin â EDI a wnaeth nifer o argymhellion mewn perthynas â'i brosesau yn fewnol ac yn allanol. Bydd yr Awdurdod yn penodi contractwr cyfnod penodol i'w gynorthwyo i weithredu'r argymhellion hyn.
- 5.27 Yn 2021/22, byddwn yn cynnal hyfforddiant ac yn gwneud gwaith pellach i fynegi gweledigaeth yr Awdurdod a gwella ei ddealltwriaeth o faterion EDI. Yn 2022/23, byddwn yn mynd i'r afael â'n prosesau yn fewnol ac yn allanol.

Gwasanaethau Corfforaethol

- 5.28 Mae'r tîm yn darparu'r gwasanaethau canlynol: cyllid, adnoddau dynol (AD), technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), diogelwch gwybodaeth, llywodraethu gwybodaeth, rheoli risg, archwilio, cyfleusterau, iechyd a diogelwch, parhad busnes, caffael a gweinyddu swyddfa.
- 5.29 Mae'r tîm yn gweithio i sicrhau bod yr Awdurdod yn sefydliad annibynnol, effeithiol, yn darparu gwerth am arian. Mae'n cefnogi'r Bwrdd a'r weithrediaeth i gyflawni swyddogaeth a gweithrediad esmwyth y sefydliad.

Gwaith ar gyfer 2022/23

- 5.30 Yn y flwyddyn i ddod bydd y tîm yn parhau i gefnogi gweithrediad cyffredinol yr Awdurdod tra'n ceisio nodi gwelliannau ac effeithlonrwydd pellach.


- 5.31 Bydd prosiectau penodol ar gyfer 2022/23 yn cynnwys monitro a rheoli ein patrymau gwaith ôl-Covid, gweithredu ein rhaglen datblygu TGCh; cynllunio a gweithredu adleoli'r swyddfa; ac adolygu ein haelodaeth o Gynllun Pensiwn y GIG.
- 5.32 Mae AD a Llywodraethu yn parhau i ddarparu cymorth o ddydd i ddydd ac ymateb i'r holl faterion staffio a materion AD. Bydd y tîm yn cefnogi'r Pwyllgor Enwebiadau ym mhroses penodiadau'r Bwrdd ar gyfer penodiadau 2022/23 sydd i ddod. Byddant yn gweithio'n agos gyda'n hymgyngorydd EDI a benodwyd yn ddiweddar i helpu cyflawni ein cynllun gweithredu, gan sicrhau bod EDI yn ganolog i'r hyn a wnawn. Byddant hefyd yn cyflawni blwyddyn tri o'r Strategaeth Pobl ac yn cyflwyno'r cynllun datblygu gwasanaeth.
- 5.33 Bydd Cyllid yn parhau i ddarparu rhediad effeithiol o'r swyddogaeth gyllid o ddydd i ddydd, gan oruchwylio'r holl drafodion ariannol, caffael a chyflogres. Byddant yn cyflawni blwyddyn tri o'r Strategaeth Gyllid a'r cynllun datblygu gwasanaeth ar gyfer 2022/23, gan adeiladu ar y gwelliannau i adroddiadau ariannol a gafodd dderbyniad da yn ddiweddar.
- 5.34 Bydd TGCh yn parhau i ddarparu cymorth effeithiol o ddydd i ddydd wrth ddesg gymorth, rheoli contractau a seiberddiogelwch. Eu prif ffocws fydd gweithredu'r datblygiadau TGCh i gyd-fynd â'r symud swyddfa yn 2022.

6. Cyllid ac Adnoddau

- 6.1 Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel corff annibynnol gyda dyletswyddau statudol. Mae'n atebol i'r Senedd.
- 6.2 Mae'r Awdurdod wedi ei ariannu trwy:
- Ffioedd a gesglir gan y cyrff rheoleiddiol mae'n eu goruchwyllo sy'n ariannu costau ei swyddogaethau rheoleiddiol a safonau
 - Incwm yn deillio o achredu cofrestrau gwirfoddol.
 - Incwm am gyngor ac ymchwiliadau sydd wedi comisiynu'n benodol gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac/neu'r Gweinyddiaethau Datganoledig.
 - Incwm o weithgareddau eraill, er enghraifft, ffioedd o ddarparu cyngor a gwasanaethau cynghori i lywodraethau, cyrff rheoleiddio a sefydliadau tebyg eraill yn y Deyrnas Unedig a thramor.
- 6.3 Dan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, mae'n ofynnol i'r Awdurdod ymgynghori gyda chyrff rheoleiddio yn eu cynghori o'i ofyniad cyllideb arfaethedig. Gellir gweld yr ymgynghoriad hwn yn yr atodiad i'r ddogfen hon.

Gwerth am Arian

- 6.4 Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu gwerth am arian. Ei nod yw gwneud hynny mewn tair ffordd: adolygu gwariant yn ofalus a rheoli costau; gwerthuso prosesau craidd yn systematig i nodi gwelliannau mewn effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd; a gwneud y mwyaf o fanteision ein gwaith er budd gwell rheoleiddio a chofrestru.
- 6.5 Yn 2021/22 rydym yn cynnal adolygiad o'n trefniadau pensiwn er mwyn i ni allu ystyried a oes dewis arall mwy addas, cost-effeithlon i gynllun buddion diffiniedig presennol y GIG.
- 6.6 Yn yr un modd â llawer o sefydliadau eraill, mae'r Awdurdod wedi gwneud arbedion mewn rhai costau swyddfa o ganlyniad i weithio o bell yn ystod y pandemig Covid-19. Er bod y rhan fwyaf o staff wedi dychwelyd i weithio yn y swyddfa ym mis Medi 2021 am 2-3 diwrnod yr wythnos, rydym yn disgwyl parhau i wneud rhai arbedion mewn costau swyddfa. At hynny, byddwn yn parhau i gynnal cyfarfodydd rhithwir ar gyfer ein Pwyllgorau Craffu a Chyllid, a fydd yn lleihau costau teithio a chynhaliadau i aelodau'r Bwrdd.
- 6.7 Mae'n rhaid i ni adleoli i lety arall yn 2022 gan nad yw ein les yn cael ei hadnewyddu ar ôl mis Hydref 2022. Rydym yn ystyried dewisiadau amgen cost-effeithlon, gan gynnwys lleihau ein gofyniad gofod yn sylweddol. Mae ein costau llety presennol yn gymharol isel (er y byddai'n debygol y byddent wedi codi'n sylweddol pe bai'r brydles wedi'i hadnewyddu) ac felly mae'r gost fesul ardal uned o ofod swyddfa newydd yn debygol o fod yn sylweddol uwch. Wrth leihau ein gofynion gofod anelwn at gael costau llety yn y cyfleusterau swyddfa newydd nad ydynt yn ddim mwy na'n costau presennol, a byddwn yn ymdrechu i wneud arbedion os yw hyn yn bosibl.
- 6.8 Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o'r pwysau ariannol a wynebir gan nifer o unigolion cofrestredig sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Y gost gyfartalog fesul unigolyn cofrestredig (yn seiliedig ar niferoedd wedi cofrestru ar 1 Ionawr 2021) ar gyfer gwaith rheoleiddio a gosod safonau'r Awdurdod yn 2022/23 fydd £2.75. Mae hyn yn cymharu â £2.72 yn 2021/22, £2.68 yn 2020/21 a £2.70 yn 2019/20, fel y dangosir isod.



- 6.9 Wrth baratoi'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2022/23, nod yr Awdurdod oedd darparu cyllideb debyg am y drydedd flwyddyn yn olynol drwy reoli costau a gwneud arbedion yn y meysydd lle nad yw costau'n sefydlog. Dwy eitem eithriadol yw'r golled mewn incwm rhent gan ein his-denant (£63K) o 31 Mawrth 2022 a chost yr ymgynghorydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant rhan amser dros dro yn 2022/23 (£39K). Ynghyd â chynnydd mewn costau staff a chynnydd chwyddiant ar rai costau nad ydynt yn gostau staff, y cynnydd cyffredinol yw £155K. Bydd defnyddio cronfeydd wrth gefn yn lliniaru'r costau ychwanegol hyn a'r cynnydd disgwylidig mewn ffioedd ar gyfer y rheolyddion yn 2022/23 fydd 0.985%.
- 6.10 Yn 2020/21 a 2021/22 mae'r Awdurdod wedi gwneud gwaith i adolygu ei brosesau craidd yn ymwneud â'n swyddogaeth cofrestrau achrededig ac adolygiadau perfformiad. Mae swyddogaeth y cofrestrau achrededig bellach yn seiliedig ar fodel hunan ariannu ac yn cynnwys cyfres ddiwygiedig o safonau a phrosesau gweithredol, gan wella effeithiolrwydd y rhaglen ymhellach. Bydd ein gwaith o arfarnu'r prosesau adolygu perfformiad yn dod i ben yn 2022 a bydd yn arwain at ddull mwy cymesur sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi gwelliannau yn y rheolyddion yn fwy effeithiol.
- 6.11 Yn ogystal â chyflawni'r amcanion yn ein cynlluniau busnes, mae'r Awdurdod yn ymdrechu i gyflwyno buddion ychwanegol drwy ymateb i faterion o fewn iechyd a gofal cymdeithasol. Er enghraifft, yn 2020/21 fe wnaethom gynhyrchu canllawiau ar wrandawiaadau addasrwydd i ymarfer rhithwir ar gyfer y rheolyddion yng ngoleuni'r pandemig, a chynhaliom adolygiad o'r hyn a ddysgwyd o'r ymateb rheoleiddiol i Covid-19, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2021. Gwnaethom hefyd gomisiynu'r Athro Deborah Bowman i wneud ymchwil ar sut y gwnaeth y pandemig siapio a newid profiadau moesegol ymarferwyr (*Ethics in extraordinary times – practitioner experiences during the pandemic*). Yn ogystal, rydym wedi bod yn weithgar iawn yn ymgysylltu â phob agwedd ar ddiwygio rheoleiddio.
- 6.12 Mae cynllun strategol yr Awdurdod ar gyfer 2021-24 yn nodi'n glir ein cynlluniau i wneud y mwyaf o fanteision ein gwaith, gyda ffocws penodol ar gyfrannu at welliannau mewn rheoleiddio trwy ymchwil, cyngor polisi, a rhannu arfer da. Mae hyn yn cynnwys ein prosiectau Pontio'r Bwlch a Gweithlu'r Dyfodol. Bydd yr Awdurdod hefyd yn gwneud mwy i hyrwyddo pwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y rheolyddion a'r cofrestrau achrededig a oruchwyliwn.

Rhagdybiaethau

- 6.13 Mae'r rhagdybiaethau ar gyfer busnes fel arfer yn 2022/23 y byddwn yn adeiladu ein


cyllideb arnynt fel a ganlyn:

- Cyfradd swyddi gwag parhaus o 5%.
- Cynnydd cyflog 'costau byw' o 1% i staff ac aelodau'r Bwrdd. Nid oedd unrhyw gynnydd yn 2021/22.
- Y codiadau dilyniant perthnasol ar gyfer rhai staff o fewn bandiau cyflog.
- Chwyddiant o 1% ar rai costau nad ydynt yn gostau staff.
- Yn seiliedig ar y costau adennill cyfartalog dros y tair blynedd diwethaf, bydd yr Awdurdod yn adennill 25% o gyfanswm ei wariant ar gyngor cyfreithiol yn ymwneud ag achosion Adran 29.
- Y bydd cyfanswm cost camau cyfreithiol yn aros ar yr un lefel ag ar hyn o bryd.
- Na chyflwynir unrhyw newidiadau deddfwriaethol sy'n addasu dyletswyddau'r Awdurdod i'r fath raddau fel y bydd yn effeithio ar ein costau, yn ystod y flwyddyn¹.
- Y bydd nifer yr achosion addaswydd i ymarfer oddeutu 3,500, lefel uwch nag yn 2020/21 a 2021/22 oherwydd bydd gan y rheolyddion ôl-groniad o waith yn dilyn pandemig Covid-19.
- Y bydd y rhaglen cofrestrau achrededig yn talu ei chostau.
- Y bydd yr Awdurdod yn adleoli i swyddfa newydd a fydd â chostau cyfatebol i'r adeiladau presennol (gan nodi bod costau unwaith ac am byth ychwanegol yn debygol o fod yn gysylltiedig ag adleoli).

6.14 Nid yw'r sefydliad staffio fel y cyllidwyd ar ei gyfer wedi newid ers 2021/22:

Swyddi	2022/23	2021/22
Prif weithredwr	1	1
Cyfarwyddwyr	3	3
Cyfarwyddwyr cynorthwyol	2	2
Penaethiaid swyddogaethau	4	4
Rheolwyr	6	6
Arbenigwyr technegol	4	4
Swyddogion a chynghorwyr	17	17
Gweinyddwyr	3	3
Cyfanswm	40	40

6.15 Mae'r 40 swydd yma yn gyfwerth â 38.6 o swyddi amser llawn.²



¹ Mae'n rhy fuan i asesu effaith bosibl diwygiadau is-ddeddfwriaeth a'r Bil Iechyd a Gofal.

² Nid yw costau AR yn cael eu hariannu o'r ffioedd a gesglir gan reolyddion.

Cyllidebau dangosol

	2022/23 £'000	2021/22 £'000
Rheoleiddio a safonau		
Gwariant gweithredu net (ac eithrio dibrisiant ar gyfer asedau a brynwyd yn ystod y flwyddyn ac amorteiddiad cronfa ddata)	4,725	4,520
Gwariant cyfalaf	50	100
Is-gyfanswm	4,775	4,620
Cronfa wrth gefn a ad-dalwyd	(216)	(105)
Cyfanswm gofynion ariannu	4,559	4,515

Dadansoddiad o'r gwariant

	2022/23 £'000	2021/22 £'000
Gwariant		
Costau staff	3,112	3,046
Costau gweinyddol eraill	1,724	1,635
Incwm		
Incwm gweithredol	(111)	(161)
Gwariant gweithredu net	4,725	4,520

	2022/23 £'000	2021/22 £'000
Gwariant cyfalaf		
Technoleg gwybodaeth	40	90
Gosodiadau a ffitiadau	10	10
Gwariant cyfalaf	50	100

Costau gweinyddol

	2022/23 £'000	2021/22 £'000
Tâl aelodau	95	93
Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol	582	519
Eiddo a pheiriannau sefydlog	602	591
Hyfforddiant a recriwtio	130	125
Cyfathrebu a chynadleddau	132	132
Costau sefydliadol	75	73
Ffi archwiliad allanol	29	23
Costau eraill	79	79
Dibrisiant	0	0
Cyfanswm costau gweinyddol	1,724	1,635

Incwm Gweithredu

	2022/23 £'000	2021/22 £'000
Adfer costau Adran 29	99	86
Incwm is-denantiaeth	0	63
Incwm gweithredu arall	12	12
Cyfanswm Incwm Gweithredol	111	161

Cofrestrau achrededig

	2021/22 Cyllideb £'000	2022/23 Cyllideb £'000
Incwm		
Model ffioedd blaenorol	157	0
Model ffioedd newydd	429	561
Incwm Arall	0	
Cyfanswm	586	561
Gwariant		
Costau tâl	321	337
Costau nad ydynt yn dâl	220	224
Cyfanswm	541	561
Cyfanswm dros ben/(diffyg)	45	0
Cyllid DHSC	0	-
Gwarged/(diffyg) net	45	0

7. Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Maes Gwaith	Dangosyddion perfformiad allweddol
Cyllid	<ul style="list-style-type: none"> I dalu anfonebau diamheuol:100% mewn 10 diwrnod Amrywiad incwm / gwariant a gyllidwyd yn llai na 5% (ac eithrio Adran 29 sydd tu hwnt i'n rheolaeth) Cyfradd gwall taliad yn llai na 3% Cyfradd archebion prynu hwyr yn llai na 10%
AD	<ul style="list-style-type: none"> Salwch staff yn ddim mwy na 2% Trosiant staff i fod yn llai na 15% Proses recriwtio cyfartalog yn llai nag 12 wythnos
TGCh	<ul style="list-style-type: none"> Cau 85% o alwadau i'r ddesg gymorth o fewn 1 niwrnod Diffyg argaeledd system yn ystod oriau busnes yn ddim mwy na 10 awr mewn unrhyw un mis
Diogelwch gwybodaeth	Dim achosion wedi eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Ceisiadau gwybodaeth (FOI / SAR / EIR)	<ul style="list-style-type: none"> 100% Delio â phob Cais Gwrthrych am Wybodaeth o fewn dyddiadau cau statudol 100% Delio â cheisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn dyddiadau cau statudol
Archwiliad – allanol	Derbyn barn ddiamod ar gyfer cyfrifon
Archwiliad – mewnol	Cwblhau 100% o adolygiadau a gynlluniwyd o fewn y flwyddyn ariannol honno
Cwynion	<ul style="list-style-type: none"> Cydnabod 100% o gwynion ymhen pum niwrnod Cwblhau ymateb i bob cwyn o fewn 28 niwrnod
Iechyd a diogelwch	Dim digwyddiadau yn achosi niwed wedi eu hadrodd
Penderfyniadau adran 29	Ystyried 100% o benderfyniadau perthnasol o fewn y dyddiad cau statudol
Adolygiadau Perfformiad	100% o asesiadau cychwynnol 2022/23 wedi'u cwblhau ar amser 100% o adolygiadau perfformiad 2022/23 wedi eu cyhoeddi o fewn tri mis i'r amserlen ddangosol gychwynnol

Pryderon y cyhoedd am Gyrrff Rheoleiddio	Cydnabod 100% o bryderon o fewn pum niwrnod gwaith
Cofrestrau Achrededig	<ul style="list-style-type: none"> ▪ 90% o gofrestrau'n cael asesiad llawn o fewn tair blynedd i asesiad blaenorol. ▪ 90% o benderfyniadau ar y gwiriad blynyddol wedi eu gwneud o fewn blwyddyn i'r asesiad blaenorol. ▪ 90% o asesiadau llawn wedi eu cynnal o fewn blwyddyn i gyhoeddi Amod. ▪ 95% o adolygiadau targedig yn cael eu cwblhau o fewn tri mis i'r dyddiad cychwyn

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

157-197 Buckingham Palace Road,
Llundain SW1W 9SP

E02761342 06/22
ISBN 978-1-5286-3493-9

Ffôn: **020 7389 8030**

Ffacs: **020 7389 8040**

E-bost: **info@professionalstandards.org.uk**

Gwefan: **www.professionalstandards.org.uk**

© Yr Awdurdod Safonau

Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal

Cymdeithasol, 2022

